Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Frenni
# Crymych
# Sir Benfro
# SA41 3QH

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Ysgol y Frenni fel ysgol gynradd gymunedol Gymraeg ym mhentref Crymych, Sir Benfro, yn 2004. Mae wedi'i lleoli ar safle campws a rennir gydag Ysgol y Preseli (uwchradd) a chanolfan addysg gynnar integredig ar gyfer plant o dan bedair oed.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn byw yn y pentref a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un sydd heb fod yn freintiedig nac yn ddifreintiedig. Mae gan 13% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Mae 181 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir disgyblion yn rhan amser i'r dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor y maent yn bedair oed. Daw 50% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg fel prif iaith yr aelwyd. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae'r ysgol wedi dynodi 18% o ddisgyblion yn rhai sydd ganddynt anghenion dysgu ychwanegol; ffigwr sydd yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Mae un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Frenni yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3643 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £5323 a'r lleiafswm yw £3000. Mae Ysgol y Frenni yn safle 22ain o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn mwynhau eu dysgu;
- yr addysgu yn dda ar y cyfan;
- yr ystod eang o brofiadau gwerthfawr yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion; a'r
- ethos cartrefol, gofalgar sy'n hyrwyddo lles a datblygiad y disgyblion yn effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach wedi'i seilio ar ddealltwriaeth sicr o'i hanghenion cyfredol;
- staff sy'n rhannu'r un gwerthoedd;
- bod yr ysgol yn adnabod a blaenoriaethu meysydd priodol i'w gwella;
- y mentrau diweddar, yn cynnwys system o dargedu cymorth ar gyfer grwpiau o ddisgyblion, sy'n arwain at welliannau mesuradwy; a
- chorff llywodraethol sy'n darparu cyfeiriad strategol cadarn ac yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 wella cyflawniadau'r disgyblion mwy galluog ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;

A2 cryfhau cynllunio mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn sicrhau cynnydd cyson yn y dysgu;

A3 sicrhau bod tasgau bob amser yn cynnig yr her briodol i ddisgyblion;

A4 datblygu rôl yr arweinyddion pwnc drwy roi ffocws cryfach ar fonitro'r deilliannau; ac

A5 ymestyn strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu.

Yn asesiadau'r athrawon, mae canlyniadau disgyblion saith mlwydd oed mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn debyg neu yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed mewn Cymraeg a Saesneg yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Mae canlyniadau mathemateg, ac yn bennaf gwyddoniaeth, yn anwastad.

Gan eithrio'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1, mae canlyniadau'r disgyblion mwy galluog yn amrywio'n sylweddol ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol ac yn gyffredinol is na chanlyniadau'r teulu o ysgolion ym mhob pwnc. Tros gyfnod o bedair blynedd, mae'r canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 o ran y canran sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim yn cymharu'n ffafriol yn gyffredinol gydag ysgolion tebyg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r canlyniadau yn fwy anwastad.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched ar ddiwedd y cyfnodau allweddol er bod rhai amrywiaethau. Yn gyffredinol, nid oes amrywiaethau mawr rhwng canlyniadau disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim â'u cyfoedion yn yr ysgol. Mae data'r ysgol yn dangos bod disgyblion ag anghenion

dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.  Mae’r grwpiau targed o ddisgyblion sy’n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer darllen a mathemateg yn gwneud cynnydd cyson.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw ar ddysgu blaenorol yn effeithiol.  Ar draws y dosbarthiadau, mae’r disgyblion yn sgwrsio’n naturiol am eu gwaith mewn iaith lafar raenus.  Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ar lefel sy’n briodol i’w hoed a’u gallu.  Mae’r mwyafrif yn darllen gyda rhuglder a mynegiant clir a gallant drafod eu llyfrau yn synhwyrol.  Nid yw ychydig o’r disgyblion yn darllen gyda dealltwriaeth ddigonol o’r testun.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n dda ar y cyfan.  Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu’n annibynnol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi’n gywir.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu’n effeithiol i ystod o ddibenion.  Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu’n gywir ar y cyfan, gan amrywio brawddegau a pharagraffu’n briodol.  Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau Saesneg mwyafrif y disgyblion yn dda.  Mae y rhan fwyaf yn mynegi eu syniadau’n glir, yn darllen yn ystyrlon ac yn ysgrifennu’n gywir.

Ar draws yr ysgol, gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd da o’u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.  Mae rhai nodweddion da iawn gyda llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau yn hyderus.  Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhif yn effeithiol i  gynorthwyo’u gwaith ar draws y pynciau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn caffael ystod o fedrau ehangach.  Maent yn datblygu strategaethau addas i ddatrys problemau ac yn addasu eu dealltwriaeth a’u medrau i sefyllfaoedd newydd yn briodol.  Defnyddiant eu medrau meddwl ac ymchwilio yn effeithiol mewn pynciau megis hanes a daearyddiaeth.  Yn y Cyfnod Sylfaen, llwyddir i ddatblygu dysgwyr hyderus.  Mae rhan fwyaf  y disgyblion yn gweithio’n annibynnol.  Maent yn cynllunio a gweithredu eu tasgau yn hyderus, a chymhwyso medrau y maent eisoes wedi eu dysgu i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol.

**Lles:  Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn wybodus iawn o ofynion bwyta a magu arferion personol iach.  Maent yn cymryd rhan yn helaeth mewn gweithgareddau cadw’n heini.

Mae ymddygiad yn ystod gwersi ac amser chwarae yn dda iawn ac mae’r disgyblion yn gwrtais i’w gilydd ac i oedolion.  Maent yn mwynhau bod yn yr ysgol gyda chyfraddau presenoldeb yn gyson dros 93%, sy’n cymharu’n ffafriol â chyfraddau cenedlaethol a’r awdurdod lleol.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant amlwg yn eu dysgu.

Mae’r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymdeithas leol ac fe geir cyswllt cryf gyda nifer o sefydliadau, asiantaethau, busnesau ac unigolion.  Maent yn elwa’n fawr iawn o’r cysylltiadau a’r profiadau hyn ac yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol, sy’n eu paratoi’n effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

Caiff llais y disgybl le amlwg yn yr ysgol.  Trwy weithgareddau amser cylch, cyngor yr ysgol, pwyllgor eco a’r defnydd o holiaduron, caiff disgyblion o bob oed ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol.  Mae’r ‘Grŵp Busnes’ yn cynnig profiad o ddatblygu busnes i’r aelodau ac yn hybu eu medrau menter, ymchwilio, cynllunio, datblygu a marchnata nwyddau yn effeithiol iawn.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Darperir cwricwlwm eang a diddorol sydd yn diwallu'r gofynion statudol. Cynllunnir profiadau cyfoethog ac ysgogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae effeithiolrwydd cynllunio tymor byr yr athrawon yn fwy anghyson. Nid oes ystyriaeth ddigonol bob amser i anghenion dysgu penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion wrth gynllunio tasgau. Nid yw'r cynllunio ysgol gyfan mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn hyrwyddo cynnydd cyson yn y dysgu yn ddigonol.

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn cyd-destunau ymarferol. Mae'r ffocws ar godi safonau darllen ymhellach yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'n gyffredinol yn y ddwy iaith. Rhoddir sylw da i hybu medrau creadigol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn dda ac yn gosod seiliau cadarn ar gyfer datblygu medrau iaith y disgyblion. Mae'r staff i gyd yn cynnig modelau iaith da iawn sy'n hyrwyddo datblygiad llythrennedd disgyblion yn effeithiol.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n llwyddiannus trwy'r ysgol. Rhoddir sylw da iawn i hyrwyddo Cymreictod trwy ddatblygu dealltwriaeth am yr amgylchedd lleol, a hanes a llên gwerin yr ardal mewn cyd-destun diwylliant Cymru. Mae'r ddarpariaeth yn rhoi sylw effeithiol i waith beirdd, awduron, arlunwyr ac enwogion Cymreig eraill. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau amrywiol yn cyfoethogi'r dysgu ymhellach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu gwybodaeth y disgyblion o gynaladwyedd a'r amgylchfyd yn dda gyda'r pwyllgor eco yn gwneud cyfraniad pwysig. Mae'r profiadau a ddarperir i hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu. Gwneir defnydd addas o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm, cysylltiadau rhyngwladol, diwrnodau masnach deg a gweithgareddau diwylliannol ac elusennol i ymestyn gwybodaeth y disgyblion.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn dda ar y cyfan. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol sicr ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion.

Yn yr addysgu effeithiol, rhennir amcanion y sesiwn ac ail ymwelir â hwy yn y sesiynau cloi. At ei gilydd, mae trefniadaeth dosbarth yn dda. Gwneir defnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac o adnoddau priodol a darperir cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio ar eu pennau eu hunain, mewn parau trafod ac mewn grwpiau bach. Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r tasgau yn cynnig her ddigonol i'r disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy galluog, ac mae gorddefnydd o daflenni gwaith fel rhan o'r broses dysgu. Ar draws yr ysgol, gwna'r cymorthyddion gyfraniad pwysig i ansawdd y dysgu.

Mae athrawon yn asesu ac yn olrhain cynnydd dysgu disgyblion yn rheolaidd. Defnyddir system dracio gyfrifiadurol yn effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion ac i

adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Caiff cofnodion asesu eu diweddaru yn ddyddiol neu wythnosol yn ôl yr angen ac mae hyn yn hysbysu'r athrawon o'r camau nesaf yn y dysgu. Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson. Yn yr enghreifftiau gorau, cynigir sylwadau adeiladol sydd yn datblygu gallu'r disgyblion i wella eu perfformiad eu hunain.

Mae'r athrawon wedi ymgorffori rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn eu harfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o'u targedau unigol a cheir enghreifftiau o ddisgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at arfarnu eu gwaith a gwaith eu cyd-ddisgyblion. Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys sylwadau priodol ac yn nodi'r ffordd ymlaen. Mae trefniadau addas i safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Sicrheir cymuned ofalgar a threfnus iawn i'r disgyblion. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gryfder. Rhydd yr ysgol sylw arbennig i anghenion personol, emosiynol ac addysgol y disgyblion a cheir perthynas waith gadarn gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol. Ceir cydweithio effeithiol gyda swyddog o'r heddlu, er enghraifft, wrth gyflwyno rhaglen i godi ymwybyddiaeth y disgyblion hŷn o beryglon alcohol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn glir, yn ddefnyddiol ac yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Cânt eu trefnu a'u rheoli'n effeithiol iawn gan y pennaeth a'r athrawes cynnal dysgu. Mae anghenion dysgu'r disgyblion yn cael eu hadnabod yn fuan gan yr athrawon, ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau arbenigol er mwyn cynnig unrhyw gefnogaeth ychwanegol. Darperir cynlluniau addysgu unigol o ansawdd da. Mae'r cymorthyddion yn cyfrannu'n hynod effeithiol at brofiadau dysgu a lles y disgyblion yn gyffredinol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae i'r ysgol ethos diogel a chynhwysol sydd hefyd yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Mae'r polisi a gweithdrefnau hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn eu lle sy'n bodloni'r gofynion statudol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl, ac mae systemau cadarn yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.

Mae'r adeilad yn cynnig ystod o ddosbarthiadau a chyfleusterau sydd o safon uchel, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol ohonynt. Mae'r ystafelloedd yn lliwgar gydag arddangosfeydd symbylus gydag amrywiaeth eang o adnoddau sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd hynod effeithiol ar gyfer chwarae a dysgu. Gwneir defnydd da o gyfleusterau chwaraeon yr ardal i ychwanegu at y cyfleoedd a ddarperir yn yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol yr ysgol yn effeithiol. Mae cyfraniad y pennaeth yn y cyd-destun hwn yn elfen bwysig yn enwedig mewn perthynas â chreu amgylchedd dysgu positif a hybu'r dimensiwn Cymreig. Mae ganddi weledigaeth glir ac mae wedi gosod nifer o strategaethau a gweithdrefnau mewn lle sy'n symud yr ysgol yn ei blaen. Caiff ei chefnogi'n dda gan yr uwch dim rheoli yn ogystal ag athrawon a staff cynorthwyol brwdfrydig.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda iawn am y ddarpariaeth addysgol a pherfformiad yr ysgol ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn ac fel rhan o'r corff llawn, yr is-bwyllgorau a thrwy rannu eu harbenigedd, gwnânt gyfraniad pwysig i fywyd a datblygiad yr ysgol. Maent yn chwarae rôl gynyddol yn y broses o hunan arfarnu.

Rhydd yr ysgol ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Mae ffocws clir ar hybu medrau llythrennedd yn ogystal â hybu dealltwriaeth y disgyblion o gynaladwyedd a byw yn iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y pennaeth a'r uwch dim rheoli wybodaeth sicr o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau ac elfennau ar gyfer datblygiad pellach. Yn ogystal, gwneir defnydd cynyddol o safbwyntiau rhieni, disgyblion, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol yn y cyd-destun hwn. Adlewyrchir hyn yn adroddiad hunan arfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys o'r ysgol.

Gwna'r cydlynwyr pwnc ddefnydd addas o ystod o brosesau hunan arfarnu gan gynnwys cyd-drafod, craffu ar waith disgyblion ac arfarnu agweddau gwahanol y meysydd dysgu. Gwna'r pennaeth ddefnydd effeithiol o ddata i fesur datblygiad yr ysgol. Yn gyffredinol, nid yw'r cydlynwyr yn canolbwyntio'n ddigon cyson ar ddeilliannau disgyblion.

Ceir cysylltiadau clir rhwng y broses hunan arfarnu a'r cynllun datblygu ysgol sy'n arf ddefnyddiol ar gyfer symud yr ysgol ymlaen. Yn deillio o'r broses hunan arfarnu, mae'r gweithrediadau diweddar sydd wedi cael effaith bwysig ar ddatblygiad yr ysgol yn cynnwys y ffocws ar y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chodi safonau darllen ymhellach.

Mae'r rhwydweithiau o arfer proffesiynol sy'n datblygu o fewn yr ysgol, yn ogystal â'r cysylltiadau sydd wedi eu creu gydag ysgolion eraill, yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau strategol effeithiol sy'n ymestyn y ddarpariaeth a hefyd sydd o fudd i addysg, lles a datblygiad y disgyblion.

Ystyrir y bartneriaeth gyda rhieni yn holl bwysig a gwna gyfraniad pwysig mewn sawl cyd-destun. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon llwyddiannus yn darparu adnoddau defnyddiol sydd yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol

yn gwneud defnydd eang o'r gymuned leol tra bod ei chysylltiadau â mudiad yr Urdd yn gryf iawn. Trefnir gweithgareddau, megis cyngherddau a gwasanaethau, yn rheolaidd yn y gymuned.

Ceir cysylltiadau cwricwlaidd da a gweithdrefnau trosglwyddo o ansawdd uchel gyda'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n dda gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ar ystod o weithgareddau. Maent yn cynnwys gweithgareddau sicrhau cysondeb yn yr asesiadau o waith disgyblion, a darparu cyfleoedd i gerddorfa plant yr ardal i gyfarfod ac ymarfer. Mae partneriaeth adeiladol gyda'r ysgol feithrin sy'n rhannu'r un campws. Mae'r cysylltiadau gyda byd busnes a'r ffocws ar hybu mentergarwch yn nodwedd amlwg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau, megis staff addysgu, cymorth a chynorthwyol, yn effeithiol. Mae'r cyfanswm o athrawon ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr yn hael ac fe'u lleolir yn addas. Caiff yr holl staff eu cefnogi'n briodol gan weithdrefnau datblygiad proffesiynol parhaus. Gwneir defnydd pwrpasol o'r holl adnoddau a'r cyfleusterau dysgu, gan gynnwys y cyfleoedd i ddefnyddio swît gyfrifiaduron yr ysgol uwchradd.

Mae is bwyllgor y corff llywodraethol a'r pennaeth yn cydweithio'n effeithlon wrth reoli'r cyllid. Maent wedi gwneud defnydd da o'r arian a oedd wrth gefn er mwyn sicrhau cyflenwad staffio digonol ar gyfer y sefyllfa bresennol. Ceir gweithdrefnau da ar gyfer sicrhau bod cyllid ac adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer hybu datblygiad disgyblion a chefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol. Wrth ystyried ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn asesiadau'r athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd, sef lefel 2 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn gyson uwch na'r teulu o ysgolion, yn uwch neu'n debyg i ganrannau'r awdurdod lleol, ac yn uwch na Chymru mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân yn fwy anwastad. Mae canlyniadau Cymraeg a gwyddoniaeth yn gyson uwch na'r teulu, ac yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yn gyffredinol, mae canlyniadau mathemateg yn debyg neu uwch na'r teulu a'r awdurdod lleol ond ychydig yn anwastad o gymharu â chanlyniadau Cymru. Cafodd canlyniadau 2011 eu heffeithio gan y canran uchel o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (39%) ym mlwyddyn 2.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed o ran y dangosydd pwnc craidd yn anwastad yn arbennig o gymharu â'r teulu, ac yn debyg neu'n uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân hefyd yn anwastad. Mae canlyniadau Cymraeg a Saesneg yn uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru mewn tair allan o'r pedair blynedd. Maent yn fwy anwastad mewn mathemateg. Mae canlyniadau gwyddoniaeth yn anwastad o gymharu â chyfartaleddau Cymru ond yn is na'r teulu a'r awdurdod lleol yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd.

Ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae canlyniadau disgyblion mwy galluog yn amrywio'n sylweddol ac yn gyffredinol is na chanlyniadau'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o'r pynciau. Yn y Gymraeg, mae canlyniadau disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch, sef lefel 3, yng nghyfnod allweddol 1 yn cymharu'n ffafriol ar y cyfan gyda chyfartaleddau'r teulu. Mae'r canlyniadau yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch, sef lefel 5, yn y Gymraeg a Saesneg yn anwastad. Maent yn gyson is na'r teulu o ysgolion ym mathemateg a gwyddoniaeth.

O gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru o ran y canran o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 mewn cyfuniad yn y 50% uchaf mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau mathemateg yn y 50% isaf yn y mwyafrif o'r blynyddoedd. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r canlyniadau mewn cyfuniad yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio rhwng y 50% uchaf a'r 25% isaf.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched ar ddiwedd y cyfnodau allweddol er bod rhai amrywiaethau. Mae merched yn cyflawni'n well mewn Cymraeg o ran y lefelau uwch ac mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, nid oes amrywiaethau mawr rhwng canlyniadau disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim â'u cyfoedion yn yr ysgol. Mae data'r ysgol yn dangos bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Yn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae'r canran sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn llafar a darllen Cymraeg yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod gyda chyfartaleddau'r teulu. Mae'r canlyniadau ysgrifennu yn fwy anwastad. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau llafar, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg yn cymharu'n ffafriol gyda'r teulu yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i holiaduron y rhieni:**

Cwblhawyd 44 o holiaduron gan y rhieni. Mae llawer yn fodlon â'r ysgol. Mae pawb yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae y rhan fwyaf o'r farn bod ymddygiad y disgyblion yn dda, gyda llawer yn dweud fod y disgyblion yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu trin yn deg. Mae bron pob un o'r farn fod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol. Dywedant fod yr athrawon yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod yr ysgol yn darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion ag unrhyw anghenion unigol penodol. Mae llawer yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Maent o'r farn fod yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Teimlant fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â thrafod unrhyw beth gyda'r ysgol. Maent yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae y rhan fwyaf o'r farn bod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae llawer o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr:**

Cwblhaodd 86 o ddisgyblion yr holiadur. Mae bron pob un yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth. Mae llawer yn nodi fod yr ysgol yn delio â bwlio'n dda. Mae pawb yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu i fod yn iach, ac mae y rhan fwyaf yn dweud bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae y rhan fwyaf o'r farn eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Teimlant fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith. Credant fod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, amser chwarae ac yn ystod yr egwyl ginio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Brinley Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Kirkman | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jiwli Higginson | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.